O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Y Ganllwyd, Gwynedd) (Ffordd Gyfyngedig a Therfyn Cyflymder o 40 mya) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Mehefin 2014* |
| *Yn dod i rym* | *27 Mehefin 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 82(1) a (2), 83(1), 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Mehefin 2014 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Y Ganllwyd, Gwynedd) (Ffordd Gyfyngedig a Therfyn Cyflymder o 40 mya) 2014.

**Cyfyngiad**

**2.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar:

i. y darn o’r gefnffordd yn y Ganllwyd yn Sir Gwynedd sy’n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o bwynt 13 o fetrau i’r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain at Bont ar Eden, am bellter o 200 o fetrau;

ii. y darn o’r gefnffordd yn y Ganllwyd yn Sir Gwynedd sy’n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt 596 o fetrau i’r de o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain at Bont ar Eden, am bellter o 200 o fetrau.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (Y Ganllwyd, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder o 40 mya) 1977**(2)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 25 Mehefin 2014

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 1977/1942

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (Y GANLLWYD, GWYNEDD) (FFORDD GYFYNGEDIG A THERFYN CYFLYMDER O 40 MYA) 2014**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 82(1) a (2), 83(1), 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi. Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar ddarnau o gefnffordd yr A470 i'r de ac i'r gogledd o'r Ganllwyd, Gwynedd, fel a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn a dirymu'r Gorchymyn terfyn cyflymder o 40 mya presennol drwy bentref y Ganllwyd er mwyn i'r terfyn cyflymder fynd i 30 mya yn rhinwedd y ffaith bod goleuadau stryd yno. Daw'r Gorchymyn i rym ar 27 Mehefin 2014.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 25 Mehefin 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r cynllun, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol Llyfrgell Dolgellau, Ffordd y Bala, Dolgellau, Gwynedd LL40 2YF neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1143953/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.cymru.gov.uk (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/ 2014).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**
**Terfyn Cyflymder o 40 mya**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o bwynt 13 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Bont ar Eden, am bellter o 200 o fetrau.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o bwynt 596 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Bont ar Eden, am bellter o 200 o fetrau.